COVID-19 Update: 22nd May

Welcome to the last COVID-19 update of the week from Cardiff Council.

Tonight: plans taking shape for further garden waste collections; the launch of a new 'Stay Home, Grow Your Own' community project; our Adviceline and Hubs will be closed on the Bank Holiday; a Cardiff County and Vale of Glamorgan Youth Choir musical tribute to key workers across the region; and don't forget, Saturday garden waste collections continue this month, and waste is being collected as normal this Bank Holiday Monday.

The Cardiff Council COVID-19 update will return on Tuesday, 26th May. In the meantime, have an enjoyable Bank Holiday weekend, and stay safe.

One-off green garden waste collections will continue into June and the first week of July

Due to popular demand, the council will be extending the one-off green garden waste collections into June and the first week of July. More information, including collection dates for your area, will follow on Tuesday 26th May.

Residents are asked to **only** put green garden waste in their green bin or reusable sacks. If the green bin is filled with soil or any other item which cannot be composted, it will not be collected and a pink sticker will be placed on your bin.

Up until last weekend, through the one-off collections during May, the council has collected just under 1,000 tonnes of garden waste from wards across the city.

Normal kerbside garden waste collections will resume as soon as is practical. Further information will be published through the Council's website and social media channels when it is available.

'Stay Home, Grow Your Own!' community project launched

Bute Park Nurseries are working with community growing groups and volunteers in Cardiff on a new 'Stay Home, Grow Your Own' project to help encourage residents to grow their own vegetables and herbs during lockdown.

Thanks to funding from Food For Life Get Togethers vegetable seedlings grown at the Cardiff Council owned Nurseries, including 'Midnight' Courgettes, 'Shiraz' Peas, 'Goldcrest' Sweetcorn, 'Carmen' Cucumber and more, will be distributed by Splott based social enterprise Green Squirrel to local residents, families and organisations such as care homes, homeless shelters and the Cardiff Deaf Centre via the Edible Cardiff network.

The network includes Eartha in Roath, Grow Cardiff in Ely/Fairwater and Growing Street Talk in Grangetown/Riverside.

Cabinet Member for Culture and Leisure, Cllr Peter Bradbury said: “We’re really pleased we’ve been able to provide integral support to this community project and play a part in helping get more people growing their own vegetables.

“The team at Bute Park do some fantastic work growing a diverse range of plants for Cardiff’s many parks and green spaces, produce honey from their own bee hives and provide growing space for a local social enterprise - this is another great example of how we can support our communities, particularly at this difficult time.”

You can read the full story here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23934.html

Adviceline and Hubs – Bank Holiday Closure

Our Adviceline and four Hubs will be closed on Monday, May 25 for the Bank Holiday.

Lines will open again on Tuesday, May 26 (9am – 5.30pm). Please call 029 2087 1071 or email advicehub@cardiff.gov.uk.

Find out about the help available here:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23667.html?utm_source=Facebook&utm_medium=social&utm_campaign=SocialSignIn

Musical tribute to Cardiff and Vale key workers

Members of the Cardiff County and Vale of Glamorgan Youth Choir have produced a musical tribute to key workers across the region for their efforts throughout the Coronavirus emergency.

The young singers, from one of a number of ensembles within the Cardiff and Vale of Glamorgan Music Service, have produced a touching video of themselves performing Louis Armstrong’s ‘What a Wonderful World’ together, each in their own homes. The film features pictures of friends and family connected to members of the choir, who are playing such an important role in their various jobs at the moment.

The video will be featured across Council social media channels over this weekend and can also be seen here:
https://www.youtube.com/watch?v=UNCiZQ_ZW1Q

May Saturday Garden Waste Collections Continue and Bank Holiday Collection

A reminder that Saturday garden waste collections are taking place this month.

The areas of Cardiff that have their waste collected on a **Thursday** will have a garden waste collection tomorrow, **Saturday, 23rd May**.

Residents are reminded that they must only put out garden waste for collection in their green wheelie bin or their reusable garden sacks.

Any additional garden waste, which is put in any other container, including plastic bags, will not be collected.

For questions and answers on the one-off garden waste collections during May, go to:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23726.html

May Bank Holiday – No Change to Waste and Recycling Collection Dates

Your collection day will remain the same over the late May Bank Holiday this year, but collection times may change so please ensure your waste is out by 6am.

Waste collection services will operate on Monday 25th May and there will be no change to collection dates for the rest of the week.

Our waste collection team will work across the bank holiday to ensure the collection service continues efficiently.

Recycling

We're asking that you continue to separate recyclable materials, just as you normally would, as we recognise that there would be no space in your black bin / red striped bags for these items if you didn't have a recycling bag collection.

Cardiff wants to become the best recycling city in the world, so we want you to continue to use your green recycling bags to keep up good habits for when the crisis is over.

Please note that, your weekly collections for recycling and food waste will return to normal from Monday 1st June.
This means that:

- Green recycling bags and food waste will be collected from each property every week, with black bag waste and hygiene waste collected every fortnight

- Green garden waste, bulky collections and the glass trial will remain suspended until further notice

- One-off green garden waste collections will continue to take place for the last weekend in May

- We plan to re-open our Recycling Centres at Lamby Way and Bessemer Close as soon as possible.

If you're unsure if an item can go into your recycling bag, please check our Recycling A-Z:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/A-Z-of-recycling/Pages/default.aspx

Diweddariad COVID-19: 22 Mai

Croeso i ddiweddariad COVID-19 olaf yr wythnos gan Gyngor Caerdydd.

Heno: casgliadau gwastraff gardd gwyrdd fis Mehefin ac wythnos gyntaf Gorffennaf; lansio project cymunedol 'Arhoswch Gartref, Plannwch a Thyfwch!'; bydd ein Llinell Gyngor a'n 4 Hyb – Cau dros ŵyl y banc; teyrnged gerddorol i weithwyr allweddol Caerdydd a'r Fro; a casgliadau gwastraff gardd ar ddydd Sadwrn a casglu gwastraff gŵyl y banc.

Bydd diweddariad COVID-19 Cyngor Caerdydd yn dychwelyd ddydd Mawrth, 26 Mai. Yn y cyfamser, gobeithio y cewch benwythnos Gŵyl Banc da, ac cadwch yn ddiogel.

Casgliadau gwastraff gardd gwyrdd fis Mehefin ac wythnos gyntaf Gorffennaf

Rydym yn ymestyn eich casgliadau gwastraff gardd gwyrdd unigol i fis Mehefin ac wythnos gyntaf Gorffennaf.

Bydd mwy o wybodaeth - gan gynnwys dyddiadau casglu ar gyfer eich ardal - yn dilyn ddydd Mawrth 26 Mai.

Lansio project cymunedol 'Arhoswch Gartref, Plannwch a Thyfwch!'

Mae Planhigfeydd Parc Bute yn gweithio gyda grwpiau tyfu cymunedol a gwirfoddolwyr yng Nghaerdydd ar brosiect 'Arhoswch Gartref, Plannwch a Thyfwch' er mwyn helpu i annog trigolion i dyfu eu llysiau a'u perlysiau eu hunain yn ystod cyfnod y cloi.

Diolch i gyllid gan Food For Life Get Togethers bydd eginblanhigion llysiau a dyfir ym mhlanhigfeydd Cyngor Caerdydd, gan gynnwys Courgettes ' Midnight', Pys 'Shiraz', India-corn 'Goldcrest', Ciwcymer 'Carmen' a mwy, yn cael eu dosbarthu gan fenter gymdeithasol y Wiwer Werdd yn y Sblot i drigolion lleol, teuluoedd a sefydliadau fel cartrefi gofal, llochesi i'r digartref a Chanolfan Pobl Fyddar Caerdydd drwy rwydwaith Caerdydd Fwytadwy.

Mae'r rhwydwaith yn cynnwys Eartha yn y Rhath, Tyfu Caerdydd yn Nhrelái/Fairwater a Growing Street Talk yn Grangetown/Glanyrafon.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Ddiwylliant a Hamdden, y Cynghorydd Peter Bradbury: "Rydyn ni'n falch iawn ein bod ni wedi gallu darparu cefnogaeth bwysig i'r prosiect cymunedol hwn a chwarae rhan yn y gwaith o helpu i gael mwy o bobl i dyfu eu llysiau eu hunain."

"Mae'r tîm ym Mharc Bute yn gwneud gwaith gwych gan dyfu amrywiaeth eang o blanhigion ar gyfer nifer o barciau a mannau gwyrdd Caerdydd, trwy gynhyrchu mêl o'u cychod gwenyn a thrwy ddarparu lle tyfu ar gyfer mentrau cymdeithasol lleol -

mae hon yn enghraifft wych arall o sut y gallwn gefnogi ein cymunedau, yn enwedig yn ystod y cyfnod anodd hwn."

Darllenwch fwy yma:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23935.html

Bydd ein Llinell Gyngor a'n 4 Hyb – Cau dros ŵyl y banc

Bydd ein Llinell Gyngor a'n 4 Hyb ar gau ddydd Llun 25 Mai ar gyfer gŵyl y banc.

Bydd y llinellau'n agor eto ddydd Mawrth 26 Mai (9am – 5.30 pm). Ffoniwch 029 2087 1071 neu e-bostiwch hybcynghori@caerdydd.gov.uk

Dysgwch am y cymorth sydd ar gael yma:
https://www.newyddioncaerdydd.co.uk/releases/w66/23668.html

Teyrnged gerddorol i weithwyr allweddol Caerdydd a'r Fro

Mae aelodau o Gôr Ieuenctid Sir Caerdydd a Bro Morgannwg wedi cynhyrchu teyrnged gerddorol i weithwyr allweddol ledled y rhanbarth am eu hymdrechion trwy gydol yr argyfwng Coronafeirws.

Mae'r cantorion ifanc, o un o nifer o ensembles o fewn Gwasanaeth Cerddoriaeth Caerdydd a Bro Morgannwg, wedi cynhyrchu fideo teimladwy ohonyn nhw eu hunain yn perfformio 'What a Wonderful World' gan Louis Armstrong gyda'i gilydd, pob un yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r ffilm yn cynnwys lluniau o ffrindiau a theulu sy'n gysylltiedig ag aelodau'r côr, sy'n chwarae rhan mor bwysig yn eu gwahanol swyddi ar hyn o bryd.

Bydd y fideo i'w gweld ar draws sianeli cyfryngau cymdeithasol y Cyngor dros y penwythnos hwn ac mae hefyd i'w weld yma:
https://www.youtube.com/watch?v=UNCiZQ_ZW1Q

Casgliadau Gwastraff Gardd ar ddydd Sadwrn a Casglu Gwastraff Gŵyl y Banc

Dyma nodyn i'ch atgoffa y cynhelir casgliadau gwastraff gardd untro ar ddydd Sadwrn y mis hwn.

Bydd yr ardaloedd yng Nghaerdydd y mae eu gwastraff yn cael ei gasglu ar **Ddydd Iau** yn cael casgliad gwastraff gardd **ddydd Sadwrn yma, 23 Mai**.

Hoffem atgoffa preswylwyr y dylent roi gwastraff gardd allan i'w gasglu yn eu biniau olwynion gwyrdd neu eu sachau gardd amldro yn unig.

Ni fydd unrhyw wastraff gardd ychwanegol a roddir mewn unrhyw gynhwysydd arall, gan gynnwys bagiau plastig, yn cael ei gasglu.

I weld cwestiynau ac atebion am y casgliadau gwastraff gardd untro yn ystod mis Mai, ewch i:
https://www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/23726.html

Gŵyl y Banc Diwedd Mis Mai - Dim Newid i Ddyddiadau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu

Bydd eich diwrnod casglu yn aros yr un fath dros Ŵyl y Banc diwedd mis Mai, ond mae'n bosibl y bydd amseroedd y casgliad yn newid felly gofalwch eich bod yn rhoi eich gwastraff allan erbyn 6am.

Bydd y gwasanaeth casglu gwastraff ar waith ddydd Llun 25 Mai ac ni fydd unrhyw newid i ddyddiadau casglu am weddill yr wythnos.

Bydd ein tîm casglu gwastraff yn gweithio drwy gydol gŵyl y banc i sicrhau bod y gwasanaeth casglu yn parhau'n effeithiol.

Ailgylchu

Gofynnwn i chi barhau i wahanu deunyddiau ailgylchu, yn union fel y byddech yn ei wneud fel arfer, oherwydd rydym yn cydnabod na fyddai unrhyw le yn eich bin du/ bagiau streipiau coch ar gyfer yr eitemau hynny pe na baech yn cael casgliad bagiau ailgylchu.

Mae Caerdydd am fod y ddinas ailgylchu orau yn y byd, felly rydym am i chi barhau i ddefnyddio eich bagiau gwyrdd ailgylchu, er mwyn cynnal arferion da ar gyfer pan fydd yr argyfwng drosodd.

Bydd eich casgliadau wythnosol ar gyfer deunydd ailgylchu a gwastraff bwyd yn dychwelyd i'r arfer o ddydd Llun 1 Mehefin.
Mae hynny'n golygu:

- Bydd bagiau ailgylchu gwyrdd a gwastraff bwyd yn cael eu casglu o bob eiddo bob wythnos, gyda gwastraff bagiau du a gwastraff hylendid yn cael eu casglu bob pythefnos

- Bydd gwastraff gardd gwyrdd, casgliadau swmpus a'r treial gwydr yn parhau i fod wedi'u hatal dros dro nes clywir yn wahanol

- Bydd casgliadau gwastraff gardd gwyrdd untro yn parhau i gael eu cynnal dros y penwythnos/au olaf ym mis Mai

- Rydym yn bwriadu ailagor ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn Ffordd Lamby a Bessemer Close cyn gynted ag y bo modd.

Os nad ydych yn siŵr os oes modd rhoi eitem benodol yn eich bag ailgylchu gwyrdd, darllenwch ein canllaw Ailgylchu A-Y:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/A-Y-o-ailgylchu/Pages/default.aspx